# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Medi 2022 – Cyfrol 7– Rhifyn 12

## Sioe flodau a chynnyrch Llandyrnog

Roedd hon yn llwyddiannus iawn eto eleni, yr un gyntaf ers tair blynedd. Roedd y babell fawr o fudd mawr i'r sioe, a sawl un yn canmol yr arddangosfa ynddi.

Diolch o galon i bawb fu wrthi'n trefnu, yn enwedig i ysgrifennydd diwyd y sioe, Roger Warner.

Bydd rhestr lawn o enillwyr y tlysau ac ambell lun yn rhifyn mis Hydref.



**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth i chi nôl eich copi o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

## Haelioni anhygoel

Mae Llandyrnog yn adnabyddus am ei haelioni – rydyn ni i gyd yn gwybod hynny! Yn ystod y pandemig, daeth digwyddiadau codi arian i stop, wrth reswm. Ond ers y bore coffi cyntaf yn dilyn y cyfnod clo, sef un y Gymdeithas Hanes ar 21 Awst 2021, mae trigolion Llandyrnog a'r cylch wedi gwneud iawn am y diffyg cyfleoedd i gyfrannu at elusennau.

Cododd 14 o foreau coffi gyfanswm o £6900 at elusennau – gan gynnwys Ambiwlans Awyr Cymru, Cŵn Tywys, Cymorth Cristnogol, a Prostate Cancer UK. Yr achosion lleol oedd y Gymdeithas Hanes, Sefydliad y Merched, eglwysi Llandyrnog a Llangwyfan, Cymdeithas Chwaraeon Lleol Llandyrnog i gael diffibriliwr yng Nghae Nant, Sefydliad y Merched, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, prosiect y siop gymunedol a *Llais Llandyrnog Voice*.

Cododd digwyddiadau eraill gyfanswm o £5630, gan gynnwys cwisiau, gyda'r elw at y diffibriliwr ar gyfer Cae Nant a phroject y siop gymunedol. Cododd yr apêl at bobl yr Wcrain £2400 mewn dwy awr, a chododd cyngerdd yn neuadd y pentref a drefnwyd gan y teulu Powell £2615 tuag at Achub y Plant i helpu'r plant yn Wcrain. Felly codwyd dros £5000 mewn cwta bedair wythnos!

Bu Ysgol Bryn Clwyd hefyd yn brysur yn codi arian at lwyfan coffa Lis Morris ac arian i'r ysgol – codwyd dros £2500.

O fewn deuddeg mis, felly, ym mhentref bychan Llandyrnog, codwyd ychydig dros £15,087 at achosion teilwng. Diolch enfawr i bawb sydd wedi cyfrannu dros y flwyddyn ddiwethaf – hir y parhaed yr haelioni.

# Pytiau newyddion y pentre

Croeso i Dafydd Roberts a Tasha Smith i Gwynfryn. Mae gan Dafydd fusnes glanhau carpedi – ewch i'w wefan: www.extremecleanz.co.uk. Gall dau aelod o'r pwyllgor dystio am ei waith rhagorol!

Mae busnes arall hefyd wedi dod i'r ardal, sef Beti Bach Dog Boarding yn y Wern, neu Fridfa Tyrnog. Symudodd Catrin, y perchennog, i'r pentref yn gynharach eleni. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â hi ar catrinhafdavies@icloud.com.

Ddydd Sul 20 Awst, bedyddiodd y Parch. Val Rowlands ei hŵyr, Tomos yn eglwys St Tyrnog. Mae Tomos yn fab i Bethan a Hywel Edwards, ac yn frawd iau i Gruff ac Erin.

Mae Jack Crowther, Maes Tyrnog, yn daid balch iawn. Enillodd ei ŵyr, Gruff, fedal aur ym Mhencampwriaethau Agored Nofio Cymru yn Abertawe. Ei gamp oedd y 100 metr dull rhydd, ac roedd ei amser 5 eiliad yn gyflymach na'i orau personol blaenorol.




Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Mrs Judith Rogers (née Dickens) a fu farw ym mis Awst. Efallai y bydd darllenwyr hŷn yn cofio Judith a'i mam, Mrs Edith Dickens, a fu'n byw am gyfnod yn Nhy'n Llan a Nant Glyd.



Gwerthodd Merfyn Parry y Golden Lion i Mark a Sam yn ystod mis Awst. Prynodd Merfyn y dafarn ym 1998, gan ei hadnewyddu a'i hagor ym mis Mawrth 1999. Ei fwriad oedd cadw'r Golden Lion fel bod tafarn yn parhau yn Llandyrnog. Yn ffodus mae gan Mark a Sam yr un ymrwymiad hefyd a hoffai Hilary a Merfyn ddymuno pob lwc i'r ddau. Cefnogwch nhw i sicrhau hir oes eto i'r dafarn.



Llongyfarchiadau i John Gwilym Morris a Kelly Cumston o Pen Isa'r Waen Cottage ar achlysur eu priodas yn Neuadd Bodysgallen yn ddiweddar. Mae John yn ffermwr a Kelly yn athrawes. Pob bendith gan y ddau deulu.

# Gwasanaethau mis Medi

**St Tyrnog: pob gwasanaeth am 11.15**

| | | |
|---|---|---|
| 4 Medi | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 11 Medi | 11.15 | Boreol weddi |
| 18 Medi | 11.15 | Boreol weddi |
| 25 Medi | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 11 Medi | 3-5pm | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |

**Capel y Dyffryn**

| | | |
|---|---|---|
| 4 Medi | 9.45 | Hybarch. Bernard Thomas |
| 11 Medi | 9.45 | Cyfarfod gweddi |
| 18 Medi | 11.00 | Parch. Andras Iago |
| 25 Medi | 9.45 | Hedd ap Emlyn |

# Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| Mawrth 6 | Clwb Llyfrau 10am<br>Sefydliad y Merched 7pm |
| Mercher 14 | Undeb y Mamau 2–4pm |
| Mawrth 20 | Clwb Llyfrau 10am |
| Mercher 21 | Tuesday Club 2pm |
| Mawrth 27 | Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |

***I logi'r Ystafelloedd Coco, cysylltwch ag Emily Williams, emilylloyd1@tiscali.co.uk.***

# Neuadd y Pentre

| | |
|---|---|
| Sadwrn 3 | Grwp crefftau 9.30–3pm |
| Llun 12 | Brownies, 5.30–7pm |
| Llun 19 | Brownies, 5.30–7pm |
| Sadwrn 24 | Bore coffi tuag at Cymorth Canser Macmillan |
| Llun 26 | Brownies, 5.30–7pm |

***I logi'r neuadd, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.***

***Bore coffi***

MACMILLAN CANCER SUPPORT

Neuadd y Pentre
Sadwrn, 24 Medi 10.00–11.30

Derbynnir cyfraniadau yn ddiolchgar tuag at y stondinau cynnyrch cartref

*Croeso cynnes i bawb*

**Diolchiadau**

Diolch o galon i bawb am y negeseuon, y cardiau a'r dymuniadau caredig a gawsom yn dilyn marwolaeth Aunty Grace. Diolch arbennig i Vera, Gwynfor, Winnie, Carolyn a Heather am eu help a'u cyngor dros yr wythnosau diwethaf, i Mark a Sam yn y Golden Lion am ofalu am y lluniaeth ar ôl yr angladd, ac i'r Parch. Val Rowlands am wasanaeth teimladwy a chynnes.

Diolch hefyd i bawb sydd wedi rhoi help, cefnogaeth a charedigrwydd i Aunty Grace dros y blynyddoedd. Mae byw mewn cymdeithas mor ofalgar yn wirioneddol amhrisiadwy.

Alison a Nicola.

---

cadwch gymru'n daclus

Mae gan yr elusen Cadwch Gymru'n Daclus gynllun o dan y project Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a fydd yn galluogi creu perllan gymunedol. Gall hwn fod yn llawn coed ffrwythau a chnau, planhigion brodorol a blodau gwyllt, lle gall pobl o bob oed ddod at ei gilydd. Mae angen isafswm o 320 metr sgwâr ar gyfer hyn a bydd yr amrywiaeth o goed a phlanhigion a gyflenwir yn dibynnu ar y tymor ac argaeledd. Bydd y pecyn a roddir yn cynnwys coed, bylbiau, offer a chanllawiau/llyfrau gwybodaeth. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwneud cais am becyn Perllan Cymunedol, cysylltwch â chlerc y Cyngor Cymuned, Bryn Davies, ar rbrynd1@gmail.com.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://keepwalestidy.cymru/our-work/conservation/nature/community-orchard.

**Bydd y ffordd ar ei hyd o gylchfan Llandyrnog at y gylchfan ger Ffordd yr Eglwys Wen, Dinbych ar gau o 12 Medi tan tua 23 Medi. Mae angen cau'r ffordd er mwyn hwyluso gosod prif bibell nwy newydd gan Wales and West Utilities. Awgrymir teithio drwy Fodfari i gyrraedd Dinbych o Landyrnog.**

# Twneli Williamson

Hoffwn rannu gyda chi y mis hwn fy mhrofiad o ymweld â labyrinth o dwneli nad oes fawr neb wedi clywed amdanyn nhw. Maen nhw yn ardal Edge Hill yn Lerpwl, a'u henw yw Twneli Williamson.

Nid yw'r 'ganolfan groeso' yn ddim byd ond cwt metel ar safle sy'n edrych fel petai bom wedi disgyn yno, ond mae safle parcio diogel oddi ar y stryd wedi'i gynnwys yn y tâl am gael gweld y twneli. Roeddwn i'n falch iawn o hynny, wir i chi!

Credir bod Joseph Williamson, a oedd yn cael ei alw '*the mole of Edge Hill*', o gefndir tlawd. Yn un ar ddeg oed, gadawodd gartref y teulu yn Warrington i chwilio am waith yn Lerpwl. Ymunodd â chwmni mewnforio tybaco a snisin Richard Tate. Daeth yn ei flaen yma, gan godi trwy'r rhengoedd o fod yn rhedwr i fod yn glerc. Yn y diwedd, roedd cymaint o feddwl ohono, fe briododd ferch y bòs, Elizabeth Tate. Bu'r cwmni'n hynod lwyddiannus a daeth Williamson yn ddyn cyfoethog iawn. Mae'n debyg bod manteision i briodi merch y bòs.

Cerddon ni rai cannoedd o lathenni allan o'r 'ganolfan groeso' rownd y gornel ac agorodd Steve, ein tywysydd, ddrws dur anferth. Aethom drwyddo, i lawr ychydig o risiau, i lefel gyntaf y twneli. Maen nhw'n dal i ddod o hyd i dwneli hyd heddiw – rhai wedi'u cadw'n berffaith, ar ôl eu hadeiladu a chodi wal wedyn i'w cau eto. Roedd gan Williamson duedd i wneud hyn – creu siambr hardd, yna ei chau. Does neb yn gwybod pam gofynnodd o i ddynion ddechrau cloddio yng ngardd gefn ei gartref tua 1810 – fedr rhywun 'mond dyfalu. Y cyfan rwy'n ei ddweud yw, mae'n rhaid bod Mrs Williamson yn ddynes amyneddgar iawn a oedd yn amlwg yn gwybod rhywbeth nad oedd neb arall yn ei wybod – neu'n rhannu angerdd ei gŵr am dwnelu. Ond rydyn ni yn gwybod bod Williamson wedi cymryd dynion oddi ar y strydoedd a'u cyflogi i ddechrau cloddio.

Erbyn 1816 roedd dynion o Lerpwl yn dychwelyd o ryfeloedd Napoleon heb unrhyw gefnogaeth o gwbl, felly cyflogodd Williamson y rheini hefyd i weithio ar ei broject.



Gofynnais i Steve ein tywysydd o ble roedd y brics wedi dod. Mae'n debyg bod llawer o byllau clai agored yn yr ardal bryd hynny a chyflogwyd plant i gario'r clai a'i roi mewn mowldiau. Yna, eu tanio mewn odynau cyntefig iawn. Mae'n anhygoel meddwl bod llaw plentyn wedi cyffwrdd â phob un o'r cannoedd o filoedd hynny o frics a'u bod wedi'u gosod gan ddynion a oedd yn gweithio heb ddim golau ond o lampau olew.

Mae yna ddamcaniaethau amrywiol ynghylch pam y cyflogodd Williamson y bobl hyn i gloddio ei dwneli.

Roedd yn ddyn dyngarol – byddai'n well ganddo dalu pobl i wneud rhywbeth yn hytrach na'u gweld yn byw mewn tlodi.

Roedd yn ddyn crefyddol iawn ac yn credu'n gryf bod y byd yn wynebu Armagedon. A fyddai'r twneli yn fan diogel iddo ddianc iddo?

Roedd yn ddyn cyfoethog iawn a oedd wedi gwneud arian trwy fewnforio nwyddau – a oedd yn ceisio cuddio rhywbeth rhag dynion y tollau? Dyna ochr sinigaidd y ddamcaniaeth ond eto, mae'n berffaith bosibl. Ond a fyddai dyn sy'n ofni Duw yn cuddio ei nwyddau oedd wedi'u mewnforio'n anghyfreithlon?

Tua 1820 roedd gan y peiriannydd a'r pensaer dociau, Jesse Hartley, gynlluniau ar gyfer Albert Dock a sylweddolodd fod ganddo weithlu parod, gweithgar ar garreg ei ddrws a daeth y twnelu bron i ben. Roedd Williamson wedi cymryd y dynion hyn oddi ar y stryd ac

# Twneli Williamson: parhad

wedi dysgu crefft iddyn nhw i gyd. Ond ’mond hyn a hyn o dwneli sydd eu hangen arnoch chi, a dweud y gwir – fodd bynnag roedd wedi cyflawni ei fwriad.

Beth oedd yn cael ei storio ynddyn nhw? Wel, y gwir yw, does neb yn gwybod. Dydy’r tîm sy’n cloddio a hyd yn oed yn dymchwel waliau wedi dod o hyd i ddim byd heblaw bric-a-brac cyffredinol y cartref – poteli, pibellau clai, a llestri.



Mae’r gwirfoddolwyr yn dal i weithio’n galed i ddod o hyd i dwneli newydd. Dangosodd Steve i ni wagle anferth a oedd wedi’i lenwi â lludw o waith nwy y dref. Roedd gwirfoddolwyr wedi ei wagio – gofynnais iddo sut wnaethon nhw hyn. ‘Gyda bwcedi, ac fe gymerodd y gwaith bedair blynedd a llenwyd 159 sgip’ – yn hollol ddidaro!

Does dim tâl mynediad, ond ar y diwedd maen nhw’n gofyn am gyfraniad at eu ‘cronfa sgip’. Os ydych chi’n poeni am Armagedon – dilynwch fi. Gobeithio na fydd hyn yn digwydd ar ddydd Llun na dydd Mawrth – bydd y twneli ar gau.

*Bryn Davies*

# Canu er lles yr enaid



Dydd Sadwrn, 20 Awst, cawsom y fraint o groesawu cantorion The Heart and Soul o Gaer i eglwys Llandyrnog. Dan arweiniad yr ysbrydoledig Ella Spiers, mae’r grŵp hwn yn cerdded ac yn canu gyda’i gilydd i gynnal eu lles corfforol a meddyliol. Llangwyfan oedd y man cychwyn, yna ymlaen i Langynhafal, Llanynys a Llanychan, gan ganu rhai caneuon a llafarganau ym mhob eglwys. Cyrhaeddon nhw Landyrnog a mwynhau paned haeddiannol.

Maen nhw wedi addo dod yn ôl y flwyddyn nesaf a byddwn yn rhoi gwybod i bawb fel y gall mwy o bobl fwynhau’r profiad dyrchafol hwn.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

**CARPET SALES & INSTALL**
**Home Choose Carpets**
**Quality Sampling Service**
**FREE Estimates**
**CARPET & RUG CLEANING**
**Call Andy**
**07900 907253**
**wetordrycarpetcleaning.com**

# Siop Gymunedol Llandyrnog

Cafwyd dau weithgaredd i godi arian tuag at brosiect Siop Gymunedol Llandyrnog ddiwedd mis Gorffennaf – cwis yn y Golden Lion dan arweiniad y cwis-feistr Phil O'Loughlin, ac yna bore coffi yn Neuadd y Pentref wedi ei drefnu gan Ffrindiau Siop Llandyrnog. Daeth nifer o bobol i gefnogi'r fenter a mwynhau'r teisennau blasus. Drwy haelioni y gymdogaeth codwyd £900 tuag at gronfa'r siop.

Os hoffai unrhyw un gefnogi gweithgareddau Prosiect y Siop gallwch gysylltu ag Emyr Morris ar e-bost – emyrmorris@btinternet.com.



*Cefnogaeth dda i'r bore coffi*



*Phil O'Loughlin, y cwis-feistr*

# Cnoi cil dros goed

*Agwedd hyfryd ar gynhyrchu* Llais Llandyrnog *yw cael cyfraniad wedi ei ysgrifennu'n wirfoddol gan un o'n darllenwyr. Rydym yn hynod ddiolchgar i Vera Jones, Nant Glyd, am gymryd yr amser a'r drafferth i roi ei meddyliau ar bapur.*

Dewch i dreulio ychydig funudau gyda mi i feddwl am goed. Mae nifer fawr o bobl, yn arbenigwyr a lleygwyr, yn mynnu bod angen plannu niferoedd helaeth o goed i helpu'r amgylchedd. Rwy'n cytuno, yn bendant, oherwydd mae coed yn un o ryfeddodau mawr byd natur. Mae hyn yn ysgogi fy nghwestiwn cyntaf i, 'Faint bydd hi yn ei gymryd i'r coed ifanc fod o fudd sylweddol i ni?'

Bob tro dwi'n gwneud y daith fer o'r pentref i Ddinbych, mae'n fy mhoeni i weld y nifer fawr o goed byw a rhai sydd wedi marw ac yn marw, wedi'u lapio mewn eiddew. Pan oeddwn i'n blentyn ym Mryneglwys, roedden ni'n arfer mynd yn weddol gyson am dro (ar brynhawn Sul fel arfer) ar draws y caeau ac ar hyd lonydd. Pan fydden ni'n gweld eiddew ar goeden, byddai un ohonon ni'n torri coesyn yr eiddew – dyna'r cyfan sydd ei angen, oherwydd bydd yr eiddew yn marw wedyn. Rhag ofn eich bod chi'n amau - ydw, rydw i'n hoffi eiddew, oherwydd yn aml dyma unig ffynhonnell neithdar i wenyn cyn y gaeaf.

Daw hyn â fi wedyn at fy ail gwestiwn, 'A oes unrhyw ddiben plannu mwy o goed a ninnau'n methu gofalu am y rhai sydd gennym?'

*Vera Jones*

Beth ydy'ch barn chi – ydych chi'n cytuno? Rhowch wybod i ni – anfonwch e-bost at llandyrnognews@gmail.com neu gadewch nodyn yn y bocs yn swyddfa'r post.

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Caffi pop-yp






Roedd y ddau gaffi pop-yp yn ystod mis Awst yn llwyddiannus ac yn boblogaidd iawn – diolch yn fawr i'r trefnwyr.

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**
Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Oriau agor Swyddfa'r Post**
**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

# Mochyndra ceffylau

Dyma atgoffa'n gwrtais y rheini sy'n marchogaeth eu ceffylau ar y palmant rhwng Croesffordd Celynog a Llangwyfan, bod Rheol 54 Rheolau'r Ffordd Fawr yn dweud; **RHAID I CHI BEIDIO** â mynd â cheffyl ar lwybr troed na phalmant…"

Dyma'r sefyllfa yn ddiweddar: roedd yn rhaid i fam â babi ifanc mewn pram gerdded ar y ffordd oherwydd cyflwr ffiaidd y palmant.



Felly os ydych chi'n gwybod pwy sy'n marchogaeth ar y palmant, atgoffwch nhw eu bod nhw'n torri'r gyfraith.

hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk



# Hanesion Hazel

Onid yw bywyd newydd yn fendigedig? – yn enwedig pan mae'n annisgwyl. Roeddwn i wedi sylwi bod iâr frown glwc wedi mynd i le tawel yn y sied. Gwrthododd adael i mi weld faint o wyau roedd oddi tani, gan ffluwchio'i phlu a fy mhigo. Roedd yn rhoi ambell wawch pan ddeuai ieir eraill yn agos ati, ond roedd hi'n benderfynol ac yn eistedd mor dynn ar eu hwyau â phosibl. Wrth ori, mae ieir yn eistedd gan syllu'n wag, heb symud a heb ddiddordeb mewn dim sy'n digwydd o'u cwmpas. Maen nhw'n cau eu cyrff i lawr i ganolbwyntio ar ddeor eu hwyau. Arhosodd yn ei hunfan am 21 diwrnod yn y tymheredd poethaf erioed.

Ar fore'r unfed diwrnod ar hugain cefais fy nghyfarch gan naw wyneb bach yn sbecian allan o dan eu mam. Daliais i nhw i gyd yn gyflym cyn iddyn nhw wasgaru, neu felly roeddwn i'n tybio, a'u cau mewn man diogel. Yn sydyn, roedd sŵn i'w glywed o'r tu ôl i'r byrnau gwair – roedd y cŵn wedi dod o hyd i un a oedd wedi dianc. Rhuthrais i'w ddal a'i roi yn ôl i'w fam a oedd erbyn hyn yn fawr ei helbul. Mae'r cywion a'r iâr yn iach ac yn tyfu mor gyflym. Gobeithio y caf i ambell iâr a dim llawer o geiliogod.



Medi yw'r amser i blannu bylbiau gwanwyn gwydn. Am flynyddoedd roedd stondin bylbiau yn sioe Dinbych a Fflint gyda phob math o liwiau a meintiau hyfryd. Cefais ddiwrnod haeddiannol o wyliau felly es i'r sioe i wylio ceffylau'n neidio a'r ceffylau Atkinson anhygoel. Yn anffodus, doedd dim bylbiau eleni, ond mi ges i gaws blasus o'r babell fwyd. Bydd yn rhaid i fy mylbiau aros nes i mi gyrraedd y ganolfan arddio.

Dwi'n hoff iawn o flodau *hyacinth* ym mis Ionawr gyda'u persawr cryf, gorfelys yn llenwi'r tŷ. Rwy'n gobeithio y bydd fy *amaryllis* yn blodeuo eto. Mae wedi cael haf poeth hir y tu allan a rŵan mae mewn lle tywyll, oer yn barod i ddod i mewn ar gyfer y Nadolig.

Mae'r hydref bron â chyrraedd ac mae'r gerddi yn arafu, yn paratoi ar gyfer y misoedd oerach, hir sydd i ddod. Roedd fy nhad bob amser yn dweud ei bod hi'n adeg o'r flwyddyn i baratoi'r ardd i swatio ar gyfer y gaeaf. Gallwn gael rhai dyddiau heulog o hyd, ond mae'r golau yn wahanol yr adeg hon o'r flwyddyn, yn

Prompt Travel
Taxi & Private Hire
4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week
Incorporating Vale Private Hire
01824 790485
07974 862027
Teithiau Prydlon
Tacsi a Hurio Preifat

## Hanesion Hazel: parhad

euraidd ac yn ysgafn ac yn byrhau wrth iddi nosi’n gynt.

Mae adeg y cynhaeaf ar ein gwarthaf, sy’n gyfnod prysur. Mae mafon hwyr yn dew ac yn llawn sudd ac yn berffaith gyda hufen iâ. Dydy’r rhan fwyaf o'r afalau ddim yn barod eto, ond mae’r afalau *Discovery* coch yn aeddfedu’n gynnar. Mae Bob y cobyn a minnau’n mwynhau eu blas melys. Wrth gwrs, mae’r ieir yn sglaffio afalau sydd wedi syrthio, ond rydw i wedi sylwi ar fwyalchen yn gobeithio am ddanteithion hefyd.



Mae’r nionod wedi bod yn sychu yn y tŷ gwydr ac unwaith y bydd y topiau wedi sychu, rwy’n eu plethu’n llinynnau i hongian yn rhywle oer i’w defnyddio yn ystod y gaeaf. Mae’n grefft draddodiadol a ddysgwyd i mi gan fy nhad ac rwy’n cael rhes o nionod fel y gwelwch mewn hen ffilmiau Ffrengig.

Bydd yr awyr yn dawel yn fuan gydag ymadawiad y gwenoliaid. Maen nhw wedi deor tair nythaid yr haf hwn ac ar ddiwedd mis Awst gwelwyd yr awyr yn llawn o’r adar bach yn heidio i ddal trychfilod gyda’u cân wichlyd gyson. A do – fe ddaeth pob un allan o’r sgubor heb gymorth, heblaw am un.

Chwiliwch am haelioni byd natur yn ein cloddiau. Gall egroes wneud gwin gwyn sych, mwyar duon wneud jeli a gallwch roi eirin tagu mewn jin. Os byddwch yn codi’n gynnar ar fore niwlog fe welwch weoedd pryfed cop llawn gwlith yn gorchuddio ein dolydd.

*Hazel*

## Capel y Dyffryn

Dymunwn yn dda iawn i Hari Rhys, Gwenan a Nanw i’r dyfodol ac i Jac Alun fydd ar ei flwyddyn olaf yn yr ysgol o ddechre Medi.

Dymuniadau gorau i Nanw a ddathlodd ei phen blwydd yn 18 oed ddiwedd mis Awst.

Eisteddfod Genedlaethol: llongyfarchiadau i Nest Mars Lloyd – 3ydd yn yr unawd alaw werin dan 12...



...ac i’w chwaer, Gwenan, ar ddod yn ail yn yr unawd cerdd dant ac ar ennill y ddeuawd cerdd dant gydag Ynyr Rogers.



**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk
Neu gadewch neges ar Facebook

# Profiadau siaradwr Cymraeg newydd mewn eisteddfodau




Yn ystod yr Eisteddfod yr Urdd ces i brofiad anhygoel! Bob dydd wnes i drochi yn yr iaith – siarad lot efo pobol a chlywed pobl o bob cwr o Gymru. Roeddwn i'n gwirfoddoli yn y babell Dysgu Cymraeg, felly roeddwn i'n gweithio efo llawer o diwtoriaid gwahanol – mentoriaid ffantastig. A ces i gyfle i weithio efo dysgwyr hyfryd eraill hefyd.

Roedd o'n gyfle da i amsugno'r iaith go iawn – yr iaith o'r stryd, yr iaith mae pobl yn defnyddio bob dydd (dim o'r llyfr gramadeg).

Hefyd wnes i weld selebs Cymreig fel Jason Mohammad, Tristan Ellis-Morris, yr Aelod o'r Senedd Eluned Morgan, gohebydd newyddion y BBC Hywel Griffiths yn bwyta cinio efo ei deulu, a'r cyfansoddwr Robat Arwyn (roeddwn i wedi parcio drws nesa iddo fo a siarad efo fo ar y ffordd i'r maes). A ches i gyfle i weld fy hoff band Cymreig, Yws Gwynedd, yn yr ŵyl Triban mewn cwmni o bobl gyfeillgar o bob oed.

Wythnos llawn hwyl a sbri! Pryd mae'n dod yn ôl i Ddinbych eto?

..............................................

Doedd gen i ddim cynllun i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron o gwbl ond… Wnes i ddefnyddio llawer o sesiynau sgwrs Zoom dros y cyfnodau clo i ymarfer fy Nghymraeg. Ar fore Mawrth roeddwn i yn y sesiwn sgwrs efo Dafydd Appoloni a roedd 'na tro olaf i ennill tocyn Eisteddfod. Roeddwn i'n lwcus iawn. Y pwrpas oedd cystadlu yn Y Cwis Mawr – y ffeinal yn y Maes D efo dysgwyr eraill o dros Gymru. Felly efo tri diwrnod i fynd wnaethon ni ffeindio gwesty i aros yn Aberystwyth ac i ffwrdd a ni!

Yn anffodus roedd bore Sadwrn yn wlyb ond wnaeth hi ddim leihau fy mrwdfrydedd am fy niwrnod yn y Genedlaethol. Unwaith eto roedd hi mor gyffrous camu ar y maes a gwybod 'roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ôl!'

Yr un peth dw i'n hoffi mwyaf am yr eisteddfod ydy mai iaith y maes ydy Cymraeg. Dim rheswm i boeni os bydd pobl yn deall pan dw i'n dechrau sgwrs yn Gymraeg. Mae hi'n fyd saff i fod yn ddysgwr.

Felly wnes i grwydro o gwmpas y stondinau a cael sgwrs bach efo stondinwyr, ces i groeso cynnes yn y babell Merched y Wawr, eisteddais i yn y pafiliwn a clywed cerddoriaeth anhygoel gan fandiau pres, a ces fy niddanu gan 'Only Boys Aloud' ar y Llwyfan y Maes tra bwytais i fy nghinio – ddim yn drwg, nag oedd!

Dydy'r eisteddfod ddim jyst yn lle cerddorol a barddoniaeth, mae yno gelf, crefftwaith a gemwaith hardd, ardaloedd ar gyfer chwaraeon a gwyddoniaeth a hyd yn oed theatr. Hefyd mae'n lle i Gymru drafod ei lle yn y byd drwy wleidyddiaeth a dadlau.

Yn y p'nawn ces i gyfle i weld ffrind sy'n cystadlu efo Côr Rhuthun cyn aeth hi ar y llwyfan. Yn anffodus doeddwn i ddim wedi'i gweld hi yn cystadlu achos rhaid i mi rhedeg dros y cae i'r Maes D i gymryd rhan yn Y Cwis Mawr! Roedd Alun Williams a Lisa Gwilym o S4C (y ddau gynt o Ysgol Glan Clwyd) yn cyflwyno'r cwis. Roedd 'na gwestiynau am Gymru, baneri, idiomau, geiriau o'r Gogledd a De Cymru a gwybodaeth gyffredinol. Llawer o hwyl ond wnes i ddim ennill.

Felly ar ôl diwrnod hir a thamp, cerddais i oddi ar y maes am y tro olaf eleni... ond dw i'n edrych ymlaen at flwyddyn nesa yn Llŷn!

*Catherine Howarth*



# Dyddio carbon samplau o Benycloddiau

Rhwng 2012 a 2018, bu Dr Rachel Pope o Brifysgol Lerpwl yn cyfarwyddo gwaith cloddio'r Brifysgol ar fryngaer Penycloddiau. Pwrpas y cloddio oedd chwilio am dystiolaeth o bobl yn byw yno, 3,000 o flynyddoedd yn ôl.

Darganfuwyd bod wal y rhagfur wedi'i hadeiladu mewn adrannau gan ddefnyddio cewyll pren – tebyg iawn i'r cewyll metel a ddefnyddir heddiw. Mae tystiolaeth yno bod dros 80 o dai crwn ar y safle ac maen nhw wedi llwyddo i ddod ag un o'r rhain i'r golwg ac wedi dod o hyd i sylfeini'r polion pren oedd yn cynnal y to a'r waliau.



Ar 21 Hydref 2017, cynhaliodd *Llais Llandyrnog* fore coffi yn yr Ystafelloedd Coco (ydych chi'n cofio'r dyddiau hynny?!) i helpu i godi arian i ddefnyddio proses dyddio carbon i gael oed rhai o'r samplau a ddarganfuwyd ar y safle. Bydd y dechneg ddrud hon yn galluogi'r archeolegwyr i benderfynu'n fwy manwl am oed y fryngaer.

Cafwyd rhagor o roddion gan Gymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan, a Chyngor Cymuned Llandyrnog, felly y pentref a ariannodd ddyddio adeiladu'r fryngaer.

Dyma ganlyniadau'r dyddio carbon:
Anfonwyd 18 sampl i'w dyddio a dim ond dau a fethodd. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y bryn wedi'i ddefnyddio gyntaf yn ystod y cyfnod Neolithig Cynnar (c. 5000–4000 CC, felly 6000–7000 o flynyddoedd yn ôl).

Mae'r fryngaer ei hun yn fath cynnar ac mae wedi'i hadeiladu mewn chwe cham ar wahân. Amgaewyd y bryn yn gyntaf gan ffos yn yr Oes Efydd Ddiweddar (12fed–10fed ganrif CC, felly 3000 o flynyddoedd yn ôl). Yna cafodd ei hailfodelu ychydig ganrifoedd yn ddiweddarach gyda ffens clwydi o brysgwydd coed cyll, tua 800 CC. Adeiladwyd y clawdd carreg a phren cyntaf yn erbyn y ffens hon, ond dim ond hyd at uchder y glun. Mae hwn yn ddarganfyddiad pwysig o ran datblygiad pensaernïaeth bryngaerau.

Wedyn mae yna fwlch mewn gweithgaredd, ac ar ôl hynny gellir gweld tri cham adeiladu gyda phridd a cherrig. Dangosodd y dyddio carbon fod llwyfan y tŷ a gloddiwyd wedi'i adeiladu yn niwedd yr Oes Haearn Ganol (2il ganrif CC). Roedd pobl yn dal i fyw yn y mathau cynnar hyn o fryngaerau mawr, ochr yn ochr â datblygiad newydd y bryngaerau llawer llai o'r Oes Haearn Ganol, fel Moel Arthur a Bodfari.

Erbyn hyn mae archeolegwyr yn credu bod gan fryngaerau cynnar fel Penycloddiau a Moel Fenlli gysylltiadau â bryngaerau cynnar Iwerddon.

*Dr Rachel Pope*
*Prifysgol Lerpwl*

**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan



Trefnwyd y trip blynyddol eleni i Gastell Gwrych, Abergele – cartref dros dro'r rhaglen enwog a phoblogaidd '*I'm a Celebrity*'. Gwirfoddol-wraig frwd o'r enw *Jackie* fu'n ein tywys o gwmpas y castell. Fel merch i weithiwr ar Fferm Castell Gwrych, roedd hi'n llawn o straeon lleol am y lle.

Mae'r castell wedi'i restru fel plasty Gradd 1, gan ei fod yn un o'r enghreifftiau gorau o blasty castellog yn y Deyrnas Unedig. Codwyd y castell yn 1812 gan yr Arglwydd Hesketh Bamford-Hesketh, er cof am y Lloydiaid ochr ei fam, ac fel anrheg i'w wraig newydd.  Er bod allt go serth o'r maes parcio i fynedfa'r castell, mae'r olygfa wych o'r môr a'r arfordir yn werth pob cam. Mae tua 250 o aceri o dir pori o'i gwmpas, ac mae'r hen lwybrau cerdded drwy'r stad eang yn cael eu hagor yn ara' deg. Oherwydd esgeulustod, fandaliaeth a thanau mawr am flynyddoedd maith, dirywiodd y castell yn adfeilion. Yn 1997, penderfynwyd ffurfio Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych, er mwyn ceisio adfer ac amddiffyn y castell, ei erddi a'i lwybrau ar gyfer y cyhoedd. Maen nhw'n brysur ar hyn o bryd yn gwneud gwaith cynnal a chadw i arbed mwy o ddifrod, ac mae ambell i adeilad y tu allan wedi ei adfer yn barod.



O ran codi arian i'r holl brosiectau sy ar y gweill, mae 100,000 o bobl ers 2014 wedi talu i ddod mewn; mae cwmnïau mawr, e.e. Fferm Wynt Gwastadeddau Rhyl wedi cyfrannu'n hael tuag at brosiectau'r Ymddiriedolaeth. Ond yn bennaf oll, bu ffilmio'r gyfres '*I'm a Celebrity*' yno yn 2020 a 2021 yn lle Awstralia, yn fodd o yrru'r prosiect yn ei flaen o 6 mlynedd, ac mae 6 o bobol bellach yn cael eu cyflogi'n llawn amser. Mae llawer o ymwelwyr eisiau gweld ble roedd *Ant a Dec* a'r Selebs fel *Mo Farah* a *Shane Richie'n* gwneud y gwahanol dasgau.



*Veronica a Buddug yn ymweld â chiosg Cledwyn*

Yn dilyn yr ymweliad, cafodd aelodau'r Gymdeithas ginio blasus iawn yn *Y Plough* Llanelwy.


Bydd cyfarfod nesa'r Gymdeithas ar Hydref 19eg, a bydd y cadeirydd, yr Hybarch Bernard Thomas yn sgwrsio am ei 50 mlynedd yn y Weinidogaeth. Croeso cynnes i bawb.

# Gair gan yr offeiriad

Mae mis Medi wedi dod a dwn i ddim amdanoch chi, ond fe aeth gwyliau haf yr ysgolion heibio fel y gwynt. Felly mae blwyddyn academaidd newydd yn dechrau ac mae prydferthwch yr Hydref ar ei ffordd i'r wlad hyfryd hon.

Beth yw pwrpas eglwys yng nghanol pentre? Yn yr eglwys Anglicanaidd, rydyn ni'n credu bod modd gwella pob enaid. Mae hyn yn golygu bod pawb, ym mhob man lle mae'r offeiriad wedi cael trwydded gan yr Esgob i wasanaethu, yn bwysig i'r offeiriad hwnnw neu honno. Mae pawb sydd wedi'u bedyddio ac sy'n mynd i'r eglwys honno unrhyw bryd i fod yn agos at Dduw, i ddysgu rhagor am ddilyn Iesu, ac i ddatblygu gyda'i gilydd yng ngrym yr Ysbryd Glân, yn rhoi daioni i bawb o'u cwmpas nhw. Mae lles ysbrydol pawb sy'n byw mewn pentre ac o'i gwmpas, wedi'i ymddiried i'r bobl sy'n ymroi i dyfu mewn ffydd yn Iesu. Mae'n plesio Iesu i wybod bod pawb yn cael eu hystyried ac nad oes neb wedi'i hepgor yn enw Iesu. Dyma ddechrau disgrifio gwellhad eneidiau pawb mewn plwyf. Mae pobl sy'n gwybod rhywbeth am gariad Duw, yn gofalu am holl breswylwyr yr ardal honno, ac maen nhw am rannu'r gwirionedd bendigedig hwnnw, sy'n newid bywydau, gydag eraill mewn gair a gweithred.

Yn Ardal Genhadu Dinbych, mae 13 o eglwysi. Mae'r ardal yn ymestyn o Lanefydd a Sinan i Landyrnog a Llangwyfan, ac i'r cyfeiriad arall, o Nantglyn i Caerwys. Yr hyn sy'n hynod, wrth tynnu llinell rhwng pob eglwys, maen nhw'n gwneud siâp colomen.



Does dim rhaid mynd i eglwys i adnabod arwyddocâd a symbol colomen heddwch, sydd wrth gwrs yn dod o lyfr Genesis, tua diwedd stori Noa. Ein dymuniad yw hedd perffaith Iesu i bawb lle rydym ni'n byw ac yn gweithio yn enw Iesu er mwyn pawb yma.

Dymunaf bob bendith i chi ym mis Medi, yn ddiogel yng nghariad Duw.

*Parch. M. Pritchard*

Drysau Agored
Open Doors

Bydd eglwys St Tyrnog ar agor o 10 y bore tan 3 y pnawn yn ystod y penwythnos Drysau Agored, dydd Gwener–dydd Sul, 23–25 Medi. Bydd eglwys St Cwyfan hefyd ar agor, os bydd Gwaith trwsio wedi'i orffen. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â warden St Tyrnog, John Rowlands ar 07879 813940.








Llwyddodd Simon Jackson i dynnu llun o'r Red Arrows wrth iddyn nhw hedfan dros Landyrnog dros Ŵyl y Banc. Tipyn o gamp – digwyddodd, darfu... go iawn!

# Constance y ci bach

*Ychydig fisoedd yn ôl, tynnodd* Llais Llandyrnog *sylw'r darllenwyr at* Sam's Tale: The Story of a Rescue Dog*, gan Sam y ci a'r darluniau gan Sylvia Evans o Ffordd-las.*

*Erbyn hyn mae awdur o Landyrnog wedi cyhoeddi llyfr arall am gi bach.*




Ci bach go iawn yw Constance, a ddaeth ataf i fel anrheg gan fy chwaer. Roeddwn i wedi colli fy nghi bach, George, ddiwedd mis Ionawr, wedyn bu farw fy nghath Loki a fy mrawd ym mis Mai, a bu farw fy nghi bach ola, Titania, ganol mis Mehefin. Roeddwn ar goll. Roedd fy chwaer wedi ymdrechu'n galed i fy mherswadio i i gael Constance, ond fe fyddwn i ar golli hebddi erbyn hyn. Mae hi wedi llenwi twll yn fy nghalon friw.

Mae Constance heb ddarllen y 'canllaw' sy'n disgrifio ei math hi o gi, dydy hi ddim yn gi tawel o gwbl, sy'n hoffi eistedd ar eich glin! Mae golwg angylaidd arni, ond mae hi yn un wyllt iawn mewn gwirionedd! Mae hi'n poenydio Bear, druan, Alsatian anferth ifanc fy ngŵr, Roger, mae hi'n rhedeg ar ôl yr ieir nes iddyn nhw droi tuag ati a dweud y drefn wrthi, ac mae hi'n dwyn dillad budr yn ddi-baid!

Mae *The Chronicles of Constance* yn dweud hanes Constance fach, sy'n byw gyda'i ffrindiau Bear a Tiger. Trwy ddamwain y daeth y llyfr i fodolaeth. Roeddwn i'n tynnu nifer fawr o luniau ohoni ac yn sgwrsio â hi. Byddai unrhyw un a oedd yn gwrando yn meddwl 'mod i'n lloerig, ond dwi ddim yn meddwl y byddai neb yn Llandyrnog yn gweld dim byd o'i le ar hynny! Roeddwn i wedi diflasu ryw ddiwrnod a phenderfynais greu stori o rai o'u chastiau, gan ddefnyddio'r straeon roeddwn i wedi'u creu o'i chwmpas hi'n chwarae, a'r lluniau roeddwn i wedi'u tynnu.

Llyfr i blant ifanc sy'n gallu darllen yn annibynnol yw hwn, gyda thema bwrpasol: mae 'Constance a'r Arth' yn helpu plentyn i ddeall yr ofn mae'r ci bach yn ei deimlo wrth gyfarfod â rhywbeth mawr a newydd am y tro cyntaf. Pan mae Constance yn mynd ar goll yn y jyngl, gall plentyn ddirnad y teimlad o fod ar goll yn y byd mawr. Mae Constance yn dofi teigr, gan helpu plentyn i fagu dewrder wrth ymdopi â bywyd. Yn olaf, mae Constance yn colli ei hoff degan, Nelly, sy'n ei chadw hi'n ddiogel yn y nos, ond wedyn mae Nelly yn dod i'r golwg a gall Constance gysgu'n dawel. Mae'r straeon yn syml yn fwriadol, gydag elfen o ailadrodd i helpu plant i ddod i ddarllen.

Mae Constance yn gi bitw bach ac yn fregus iawn, ac eto yn anhygoel o ddewr. Efallai y gwelwch chi Constance o gwmpas y pentre gan ei bod yn hoffi teithio yn ei chaetsh arbennig ar gefn fy meic tair olwyn.

*Wendy Warner*



Gallwch brynu *The Chronicles of Constance: Tales of a Tiny Tearaway* gan Constance Holmes oddi ar wefan Amazon – www.amazon.co.uk.